<u>**Y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ARD 04-00(p.2)**</u>

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 15 Mawrth 2000 |
| **Amser:** | 9.15am i 12.20pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

## ASTUDIAETH ARFAETHEDIG I ASESU POTENSIAL PYSGODFEYDD MÔR A MEWNDIROL YNG NGHYMRU O SAFBWYNT DATBLYGU ECONOMAIDD

### Diben

1. Darparu gwybodaeth i'r pwyllgor ynghylch argymhellion i gynnal astudiaeth ar botensial pysgodfeydd yng Nghymru o safbwynt datblygu economaidd.

### Argymhelliad

2. Bod y Pwyllgor yn gwneud sylwadau ar y cynigion.

### Cefndir

3. Mae Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd (FIFG) yn gweithredu Cyfarwyddebau'r CE ar gyfer amrediad o fesurau strwythurol ar gyfer datblygu ac ehangu pysgodfeydd môr, gan gynnwys gwaith cyfalaf ar borthladdoedd, marchnata a phrosesu a ffermio pysgod a chregyn: gellir cyllido gweithgareddau sy'n gysylltiedig â physgodfeydd mewndirol trwy grantiau strwythurau eraill ond nid ydynt yn gymwys i gael cyllid FIFG.

4. Ceir cydnabyddiaeth gyffredinol fewn y Llywodraeth a'r Diwydiant bod y potensial yn bodoli i ddatblygu'r diwydiant pysgodfeydd môr o fewn y mesurau a gynhwysir yn FIFG, mewn ardaloedd Amcan 1 ac mewn ardaloedd eraill er budd economaidd i'r cymunedau hyn ac yn ehangach ledled Cymru. Yn yr un modd mae cyfle i ehangu pysgodfeydd mewndirol i gael budd economaidd ehangach o ran cyflogaeth a thwristiaeth.

5. Ym mis Tachwedd, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cyllid ei bod wedi darparu cyllid ar gyfer astudiaeth bysgodfeydd. Y nod fyddai cynhyrchu strategaeth ar gyfer datblygu'r diwydiant pysgodfeydd yng Nghymru; pa botensial sy'n bodoli a sut y gellir ei ddatblygu. Byddai casgliadau'r astudiaeth yn cael eu defnyddio i atgyfnerthu ac i ategu'r mesurau a amlinellwyd eisoes mewn cynlluniau a gyflwynwyd i'r CE.

## Argymhellion ac Amserlen

6. Argymhellir y dylai'r cylch gorchwyl amgaeedig ffurfio sail ar gyfer gwahoddiad i dendro i gynnal yr astudiaeth. Y bwriad yw ceisio gorolwg cydlynol o'r potensial a'r adnoddau tebygol y bydd eu hangen ar gyfer y pedwar prif fesur o fewn y cynllun FIFG, ac i ymchwilio yn fwy manwl i'r prosiectau tebygol a fydd yn addas i'w datblygu. Hefyd, bydd yr astudiaeth yn archwilio'r trefniadau strwythurol neu sefydliadol presennol ac yn cyflwyno strategaeth arfaethedig a chynllun gweithredu, gan gymryd i ystyriaeth argaeledd cyllid FIFG o fewn Amcan 1 ac yn cynnig cynllun gweithredu i alluogi'r diwydiant i gyflawni ei botensial gan gynnwys unrhyw newidiadau sydd eu hangen i'r trefniadau gweinyddol presennol.

7. Bydd Grp Llywio bach yn goruchwylio'r astudiaeth. Bydd y grp yn cynnwys swyddogion o gyrff polisi cenedlaethol sydd â diddordeb; y Cynulliad, Awdurdod Datblygu Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Bydd swyddog o'r Cynulliad yn cadeirio'r grp a bydd yn cytuno ar fanylion terfynol manyleb yr astudiaeth, dewis yr ymgynghorwyr yn unol â rheolau'r broses gaffael a monitro cynnydd yr astudiaeth. Bwriedir i'r gwaith ddechrau cyn gynted ag y bo modd ym mis Mawrth a bod wedi ei chwblhau i raddau helaeth erbyn canol yr Haf.

## Goblygiadau Ariannol

8. Cyhoeddwyd y cyllid ar gyfer yr astudiaeth gan yr Ysgrifennydd Cyllid.

## Camau i'w Cymryd

9. Gwahoddir y Pwyllgor i wneud sylwadau ar y cynnig hwn.

## Pwynt Cyswllt

Lynn Griffiths, Yr Adran Polisi Amaethyddol, Parc Cathays: Estyniad 3555

## ASTUDIAETH I ASESU POTENSIAL PYSGODFEYDD MÔR A MEWNDIROL YNG NGHYMRU O SAFBWYNT DATBLYGU ECONOMAIDD

## CYLCH GORCHWYL ARFAETHEDIG

- Darparu asesiad o botensial pysgodfeydd môr yng Nghymru o safbwynt datblygu economaidd gan ystyried y mesurau a gefnogir yn Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd (FIFG) y CE, argaeledd adnoddau ac o ystyried ymrwymiad y Cynulliad i egwyddorion datblygu cynaliadwy.

- Nodi cyfleoedd posibl ar gyfer datblygiad economaidd cynaliadwy pysgodfeydd môr a physgodfeydd mewndirol yng Nghymru; gan ystyried

- y casgliadau a gafwyd mewn gwaith ar ddatblygu ffermio pysgod a chregyn posibl ac mewn perthynas â physgodfeydd mewndirol, yr adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Grp Arolygu'r Llywodraeth
- y mesurau a gefnogir yn Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd y CE (FIFG)
- y cyfleoedd sy'n codi o raglenni cronfeydd strwythurol yr UE yng Nghymru a'r mesurau a amlinellwyd oddi mewn iddynt
- yr egwyddorion a'r gwerthoedd sy'n ategu cynllun strategol drafft y Cynulliad gan gynnwys datblygu cynaliadwy

- Gan ystyried argaeledd tebygol cyllid, i awgrymu strategaeth ymarferol a chynllun gweithredu i ddatblygu pysgodfeydd yng Nghymru gan ragweld costau buddsoddi tebygol y sector cyhoeddus a'r budd economaidd ac unrhyw fudd arall.

- Wrth baratoi'r strategaeth a'r cynllun gweithredu, i nodi'r cyrff a'r asiantaethau perthnasol a allai gyflawni'r camau hynny ynghyd ag asesiad o'u gallu a'u haddasrwydd ar gyfer cynllunio a rheolaeth gydlynol a strategol o ddatblygiadau o'r fath, gan gynnwys nodi unrhyw newidiadau sydd eu hangen i'r trefniadau gweinyddol presennol.

- Nodi a chynhyrchu mesurau perfformiad i'w defnyddio i asesu effeithiolrwydd gweithredoedd yr asiantaethau a'r cyrff perthnasol.

- Dylai'r gwaith hwn gael ei gwblhau a'i gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gydag argymhellion erbyn mis Gorffennaf 2000.